YR ATODLEN

Rheoliad 4

Cynnwys cynllun datblygu ysgol

Blaenoriaethau gwella'r ysgol

1.—(1) Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol.

(2) Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

(3) Wrth osod blaenoriaethau gwella'r ysgol rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol.

Targedau gwella'r ysgol, deilliannau disgwyliedig a strategaeth

2. Datganiad byr yn nodi targedau gwella'r ysgol a deilliannau disgwyliedig a strategaeth y corff llywodraethu i gyflawni'r targedau hynny.

Strategaeth datblygu proffesiynol

3. Manylion am strategaeth y corff llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol o ran sut y bydd yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yr ysgol er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol.

Gweithio gyda'r gymuned

4. Manylion am sut y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy weithio gyda—

(a) disgyblion yn yr ysgol a'u teuluoedd; a

(b) pobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae'r ysgol wedi ei lleoli ynddi.

Staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol

5. Manylion am sut y bydd y corff llywodaethu yn gwneud y defnydd gorau—

(a) o staff presennol yr ysgol ac adnoddau presennol yr ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol; a

(b) o staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae'r corff llywodraethu yn rhag-weld y byddant ar gael iddo er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol nesaf yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

Targedau blaenorol

6. Datganiad byr yn nodi'r graddau y cafodd targedau gwella'r ysgol eu cyflawni ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol gan ddechrau gyda blwyddyn ysgol 2015 i 2016 a phan na chawsant eu cyflawni'n llawn esboniad byr yn nodi'r rhesymau dros y methiant hwnnw.